Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cynorthwyo'r gwaith o weinyddu a rheoli rhaglenni brechu plant a ddarperir mewn ysgolion

Nod y ddogfen hon yw rhoi gwybodaeth ac arweiniad er mwyn cynghori ysgolion ar gamau gweithredu i gynorthwyo timau Nyrsio mewn Ysgolion i ddarparu gwasanaethau brechu i blant oedran ysgol.

Gellir dod o hyd i'r rhestr o frechiadau a roddir mewn ysgolion **yma**.

## Cyflwyniad

Mae **Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn** yn cydnabod hawl plentyn i fwynhau'r safon iechyd uchaf y gellir ei chyrraedd[1]. Brechu yw un o'r pethau pwysicaf y gallwn ni ei wneud i hyrwyddo iechyd da ac amddiffyn plant a phobl ifanc rhag salwch. Mae brechlynnau yn helpu systemau imiwnedd i adeiladu ymwrthedd i heintiau penodol, gan arwain at lai o achosion o glefydau, symptomau ysgafnach ohonynt, a llai o amser a gollir gan blant o'r ysgol. Mae cyflawni lefelau uchel o imiwnedd hefyd yn amddiffyn teuluoedd a'r gymuned drwy gyfyngu ar ledaeniad feirysau fel y ffliw, y frech goch a chlefydau eraill y gellir eu hatal mewn ysgolion a lleoliadau eraill.

Ceir tystiolaeth sy'n awgrymu bod cael eich brechu'n llawn yn darparu rhywfaint o symudedd cymdeithasol, gan ei fod yn golygu nad yw tlodi a'r afiechydon a'r marwolaethau sy'n gysylltiedig â chlefydau heintus bellach yn benderfynyddion o ran cyfleoedd bywyd unigolyn. Mae astudiaethau yn awgrymu bod plant sydd wedi'u brechu yn elwa ar iechyd gwell ac yn perfformio'n well yn yr ysgol[2], a bod gan y rhai sydd wedi'u himiwneiddio y cyfle o sicrhau disgwyliad oes gwell[3].

Mae UNICEF, sef sefydliad y Cenhedloedd Unedig sy'n gyfrifol am amddiffyn hawliau plant yn fyd-eang, yn nodi'n glir bod angen gwneud mwy i sicrhau bod plant yn gallu elwa ar fanteision brechu.[4]

Mae tegwch yn ganolog i ddull gweithredu Cymru o ran brechu. Mae rhaglenni brechu mewn ysgolion yn sicrhau cyfleoedd a mynediad teg i bawb fanteisio ar y

---

[1] Mae Erthygl 24 yn nodi bod rhaid i Bartïon Gwladwriaethau ymdrechu i sicrhau na chaiff unrhyw blentyn ei amddifadu o'i hawl i gael mynediad at wasanaethau gofal iechyd. Gweler hefyd Erthygl 3 sy'n ymwneud â buddiannau pennaf y plentyn ac Erthygl 6 sy'n ymwneud â bywyd, goroesiad a datblygiad.
[2] Nandi A, Shet A. (2020) Why vaccines matter: understanding the broader health, economic, and child development benefits of routine vaccination. *Human Vaccines & Immunotherapeutics*, *16*(8), 1900–1904.
[3] Andre et al. (2008). Vaccination greatly reduces disease, disability, death and inequity worldwide. Bull. Sefydliad Iechyd y Byd. 86, 140–146.
[4] Vaccines to keep children safe - UNICEF UK

cynnig i gael eu brechu, gan helpu i sicrhau bod grwpiau difreintiedig yn cael eu trin yn yr un modd â grwpiau eraill.

## Rôl timau Nyrsio mewn Ysgolion

Mae gwasanaethau Nyrsio mewn Ysgolion yn darparu'r rhaglenni brechu mewn ysgolion i bob disgybl yn unol â'r Fframwaith ar gyfer Gwasanaeth Nyrsio mewn Ysgolion i Gymru a'r safonau imiwneiddio[5]. Er mwyn cyflawni'r ystod o raglenni brechu mewn ysgolion yn effeithiol drwy gydol y flwyddyn academaidd, mae angen iddynt wneud y canlynol:

- Sicrhau bod gan yr ysgol wybodaeth frechu gyfredol cyn y sesiwn frechu.
- Asesu statws imiwneiddio pob disgybl pan fydd yn dechrau yn yr ysgol gynradd a'r ysgol uwchradd a chynnig gwybodaeth am sut i gael unrhyw frechlynnau sydd heb eu rhoi.
- Trefnu ymweliadau ar gyfer cynnal sesiynau brechu drwy'r trwyn i atal rhag y ffliw. Caiff y rhain eu cynnig i bob disgybl cymwys bob blwyddyn, o'r dosbarth derbyn hyd at flwyddyn 11 yn ystod tymor yr hydref.
- Trefnu ymweliadau ar gyfer sesiynau brechu wedi'u targedu ar gyfer pob person ifanc ym mlynyddoedd 8 a 9.
- Trefnu sesiynau dal i fyny ar gyfer disgyblion a allai fod wedi colli'r brechiadau a drefnwyd pan roddwyd y cynnig iddynt gyntaf.
- Trefnu i ffurflen gydsynio a phecyn gwybodaeth gael eu hanfon at rieni a gofalwyr cyn cynnal sesiynau brechu.
- Unwaith y cytunir ar ddyddiad ar gyfer cynnal sesiynau brechu, dylid darparu gwybodaeth i'r ysgol am ofynion o ran cynnal sesiynau ac unrhyw gymorth sydd ei angen.
- Os nad yw ffurflenni cydsynio wedi'u dychwelyd, dylid cysylltu â rhieni/gofalwyr neu'r disgybl i drafod ffyrdd o roi cydsyniad ar y diwrnod.
- Rhoi adborth i'r ysgol ar y nifer sy'n manteisio ar y sesiynau brechu.

Nod timau Nyrsio mewn Ysgolion yw ceisio tarfu cyn lleied ag y bo modd, a dim ond y pethau na all brechwyr eu gwneud eu hunain y byddant yn gofyn i ysgolion eu gwneud.

Weithiau, mae timau Nyrsio mewn Ysgolion yn wynebu anawsterau o ran cael gafael ar ddata neu fanylion cyswllt disgyblion ysgolion cynradd ac uwchradd neu eu rhieni, a hynny at ddibenion cael cydsyniad a / neu weinyddu brechiadau i blant oedran ysgol.

[5] https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-03/fframwaith-ar-gyfer-gwasanaeth-nyrsio-mewn-ysgolion-i-gymru-mai-2017.pdf

## Rôl ysgolion

Gofynnir felly i ysgolion wneud y canlynol:

- Gweithio gyda thimau Nyrsio mewn Ysgolion i gytuno ar y ffordd orau o weithredu a hyrwyddo rhaglenni brechu mewn ysgolion.
- Cytuno ar ddyddiad neu ddyddiadau ar gyfer cynnal y sesiwn neu sesiynau brechu.
- Enwebu unigolyn a all fod yn gyswllt i'r timau Nyrsio mewn Ysgolion a bod yn bresennol ar ddiwrnod y sesiynau brechu, i helpu i'w cynnal yn ddidrafferth.
- Rhannu ffurflenni cydsynio digidol a phapur â rhieni neu ofalwyr.
- Darparu rhestrau dosbarth cyfredol, ynghyd â manylion cyswllt, i dimau Nyrsio mewn Ysgolion er mwyn iddynt allu cynllunio ar gyfer y niferoedd disgwyliedig ac, os oes angen, at ddibenion cael cydsyniad neu hwyluso sgwrs rhwng y gweithiwr gofal iechyd proffesiynol a'r rhiant neu'r gofalwr.
- Gweithio gyda thimau Nyrsio mewn Ysgolion i greu amserlen i bob dosbarth fynd i'w sesiynau brechu.
- Sicrhau amgylchedd a lle priodol, er enghraifft neuadd yr ysgol, er mwyn cynnal y sesiynau brechu yn ddiogel ac yn effeithiol.
- Cydnabod a chefnogi rôl timau Nyrsio mewn Ysgolion wrth gynnal asesiadau o gymhwysedd Gillick, gan alluogi pobl ifanc sy'n dangos lefel ddigonol o ddealltwriaeth ac aeddfedrwydd i roi eu cydsyniad eu hunain.

Os yw cyfradd dychwelyd ffurflenni cydsynio ar gyfer brechu yn isel, gall Nyrsys Ysgol dreulio cryn dipyn o amser yn cysylltu â rhieni neu ofalwyr i gael cydsyniad, sy'n lleihau'r amser sydd ar gael i roi brechlynnau. Mae risg hefyd na fydd rhai plant a phobl ifanc, y mae eu rhieni neu eu gofalwyr o blaid brechu, yn cael eu cynnwys. Er mwyn lliniaru'r risg hon, gofynnir i ysgolion annog rhieni neu ofalwyr i lenwi ffurflenni cydsynio gydag atebion clir, boed yn gadarnhaol neu negyddol, a'u dychwelyd yn brydlon. Dylid nodi hefyd, os na ddychwelir y ffurflenni erbyn y dyddiad cau, ei bod yn bosibl na fydd gan y timau Nyrsio mewn Ysgolion ddigon o frechlynnau i bawb a hoffai gael eu brechu ar y diwrnod.

Byddai hefyd yn ddefnyddiol pe bai ysgolion yn cyfathrebu â phlant, pobl ifanc, rhieni a gofalwyr er mwyn eu hannog i roi cydsyniad a manteisio ar y brechiadau, yn ogystal â hyrwyddo a rhannu gwybodaeth am y rhaglenni brechu ar wefan yr ysgol, y cyfryngau cymdeithasol a thrwy'r dulliau cyfathrebu a ddefnyddir rhwng athrawon a rhieni. Mae pecynnau cymorth Iechyd Cyhoeddus Cymru at y diben hwn ar gael drwy **Lyfrgell Asedau Iechyd Cyhoeddus Cymru - Mewngofnodi**. Mae adnoddau hefyd ar gael i'w harchebu a'u lawrlwytho am ddim drwy system **Adnoddau gwybodaeth iechyd - Iechyd Cyhoeddus Cymru**. Gofynnir i ysgolion annog rhieni, gofalwyr neu staff, a allai fod yn bryderus neu a allai fod angen cyngor pellach, i siarad â'u Nyrs Ysgol, eu tîm imiwneiddio neu eu practis meddyg teulu.

## Rhannu a phrosesu data

Fel y nodir uchod, mae rhannu gwybodaeth yn angenrheidiol er mwyn adnabod disgyblion cymwys, cysylltu â rhieni neu ofalwyr i geisio ymateb lle na chafwyd un eisoes, pan fo hynny'n briodol, a chynnal cofnodion brechu cywir.

Mae deddfwriaeth a chanllawiau ar waith sy'n caniatáu i ysgolion rannu data ac i Nyrsys Ysgol brosesu data wrth weinyddu rhaglenni brechu yng Nghymru.

### Y sail gyfreithlon dros rannu data personol

Mae'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) a Deddf Diogelu Data 2018 yn darparu fframwaith i sicrhau bod gwybodaeth bersonol yn cael ei rhannu'n briodol.

Rhaid bod sail gyfreithlon dros rannu data personol. Ceir canllawiau ar hyn isod. Mae defnyddio'r sail gyfreithlon briodol yn galluogi ysgolion i rannu'r wybodaeth sydd ei hangen ag awdurdod neu unigolyn perthnasol, yn unol â'u rôl o ran cyfrannu at amddiffyn iechyd y cyhoedd a diogelu llesiant disgyblion.

Mae Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) yn darparu **canllawiau** i sefydliadau sy'n trin gwybodaeth bersonol plant ynghylch sut mae'r seiliau cyfreithlon yn berthnasol. Yn achos rhaglenni brechu mewn ysgolion, y seiliau cyfreithlon mwyaf priodol fel arfer fydd:

### Cyflawni tasg er budd y cyhoedd

**Erthygl 6(1)(e) o GDPR y DU**: Mae'r prosesu'n angenrheidiol er mwyn cyflawni tasg a gyflawnir er budd y cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol a freiniwyd yn y rheolydd. Mae swyddogaethau iechyd y cyhoedd ac addysg yn dod o fewn y categori hwn.

Ar gyfer data categori arbennig, mae angen bodloni amod ychwanegol, megis:

- darparu gofal iechyd neu ofal cymdeithasol;
- rheoli systemau iechyd; neu
- budd y cyhoedd y maes iechyd y cyhoedd.

**Adran 8 o Ddeddf Diogelu Data 2018 (DPA):** Mae'n dweud bod tasg gyhoeddus yn cwmpasu prosesu sy'n angenrheidiol ar gyfer cyflawni swyddogaethau statudol.

Mae canllawiau'r ICO yn nodi bod "angenrheidiol" yn golygu bod rhaid i'r prosesu fod yn ffordd wedi'i thargedu a chymesur o gyflawni'r diben dan sylw, ac nad oes modd llai ymwthiol o sicrhau'r un canlyniad.

Wrth ystyried a ellir sefydlu sail gyfreithlon, cyfrifoldeb yr ysgol fydd penderfynu a yw'r prosesu'n angenrheidiol.

Wrth gymhwyso canllawiau'r ICO yn yr achos hwn, byddai cyflawni tasg er budd y cyhoedd yn golygu hwyluso rhaglen frechu drwy rannu data personol, megis rhestrau dosbarth sy'n cynnwys enwau disgyblion a manylion cyswllt rhieni neu ofalwyr, â thimau Nyrsio mewn Ysgolion. Drwy wneud hynny, byddai'r ysgol yn cyfrannu at fynd i'r afael â phryder iechyd y cyhoedd.

Mae'n debygol y bydd gan gyrff llywodraethu ysgolion sail gyfreithlon i rannu data disgyblion at ddibenion rhaglenni brechu mewn ysgolion o dan y sail "tasg gyhoeddus" yn Erthygl 6(1)(e) o GDPR y DU, yn enwedig pan fo'r rhannu'n cefnogi iechyd y cyhoedd a llesiant disgyblion.

## Adran 175 o Ddeddf Addysg 2002 (Deddf 2002)

Mae **adran 175 o Ddeddf 2002** yn nodi bod gan gyrff llywodraethu ysgolion ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau bod eu swyddogaethau addysgol[6] sy'n ymwneud â dull rheoli'r ysgol yn cael eu harfer gyda golwg ar ddiogelu a hyrwyddo lles plant sy'n ddisgyblion yn yr ysgol. Mae **adran 21 o Ddeddf 2002** yn darparu bod rhaid i gorff llywodraethu ysgol a gynhelir, wrth gyflawni ei swyddogaethau sy'n ymwneud â dull rheoli'r ysgol, ddiogelu a hyrwyddo lles y disgyblion yn yr ysgol. Mae lles yn cynnwys llesiant corfforol y plentyn.

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod adran 175, o'i darllen ar y cyd ag adran 21 o Ddeddf Addysg 2002, **yn darparu sail gyfreithlon dros rannu data personol disgyblion er mwyn cynnig brechlyn iddynt fel rhan o raglen frechu.** Mae athrawon ysgol hefyd yn **gweithredu in loco parentis** mewn perthynas â disgyblion yn yr ysgol. Dyma ddyletswydd hirsefydlog yn ôl y gyfraith gyffredin i weithredu fel y byddai rhiant gofalus wrth ofalu am ddisgyblion.

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y byddai rhannu data disgyblion er mwyn sicrhau bod y plentyn/rhiant yn cael cynnig brechiad yn helpu i amddiffyn iechyd y plentyn ac iechyd disgyblion eraill. Mae'r ddau yn bryderon ehangach sy'n ymwneud ag iechyd y cyhoedd, ac felly byddent yn gyson ag egwyddorion y gyfraith gyffredin. Yn y pen draw, mater i'r ysgol fydd penderfynu ar y sail gyfreithlon briodol, ond mae Llywodraeth Cymru yn annog ysgolion yn gryf i rannu'r wybodaeth bersonol hon. Bydd angen i ysgolion geisio eu cyngor cyfreithiol annibynnol eu hunain.

Nid yw rhannu gwybodaeth yn briodol â Thimau Nyrsio mewn Ysgolion GIG Cymru yn golygu y bydd brechlyn yn cael ei roi'n awtomatig. Yn hytrach, bydd yn galluogi'r tîm Nyrsio mewn Ysgolion i nodi'r unigolion cymwys yn yr ysgol a chysylltu â rhiant neu ofalwr i drafod cydsyniad, os nad yw eisoes wedi'i roi. Drwy gefnogi rhaglenni brechu yn y modd hwn, bydd ysgolion yn helpu i fynd i'r afael â phryder iechyd y cyhoedd.

## Hysbysiadau Preifatrwydd ac Asesiadau Effaith Diogelu Data (DPIA)

Unwaith y bydd sail gyfreithlon wedi'i sefydlu, ac yn unol â chanllawiau'r ICO, rhaid i unrhyw drefniadau rhannu data:

- gael eu cynnwys yn hysbysiad preifatrwydd yr ysgol.
- gael eu cefnogi gan DPIA.

[6] Unrhyw swyddogaeth a roddir i'r corff llywodraethu o dan y Deddfau Addysg.

Dylai **hysbysiadau preifatrwydd ysgolion** a roddir i rieni a disgyblion nodi'r seiliau cyfreithlon ar gyfer prosesu data personol yn ogystal â nodi pa sefydliadau eraill sy'n prosesu data personol a'r rhesymau dros wneud hynny. Mewn hysbysiadau preifatrwydd o'r fath, dylid cynnwys prosesau ar gyfer rhannu manylion cyswllt a gwybodaeth feddygol â'r GIG, awdurdodau lleol a chyrff eraill y llywodraeth, gan gynnwys asiantaethau iechyd y cyhoedd (sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau brechu). Yn achos rhaglenni brechu, dylai'r hysbysiad preifatrwydd gyfeirio'n benodol at rannu gwybodaeth â Gwasanaethau Nyrsio mewn Ysgolion neu Imiwneiddio'r GIG lle mae hynny'n digwydd yn rheolaidd fel rhan o'r broses o ddarparu gwasanaethau gofal iechyd. [7]

Dylai ysgolion sicrhau bod eu hysbysiadau preifatrwydd yn egluro'n glir:

- pa wybodaeth bersonol sy'n cael ei chasglu;
- gyda phwy y gellir rhannu'r wybodaeth;
- y dibenion dros rannu'r wybodaeth;
- y sail gyfreithlon y dibynnir arni;
- hawliau gwybodaeth unigolion; a
- sut y gellir cael rhagor o wybodaeth.

Mae **hysbysiad preifatrwydd Llywodraeth Cymru ar gyfer casgliadau statudol o ddata disgyblion ar gael**. Efallai y bydd ysgolion yn dymuno cyfeirio ato i gefnogi eu gofynion hysbysiad preifatrwydd eu hunain. Mae **enghreifftiau** o hysbysiadau preifatrwydd ysgolion sy'n ymdrin â rhannu gwybodaeth â'r GIG ac awdurdodau iechyd hefyd ar gael i ysgolion gyfeirio atynt os oes angen. Mae rhagor o ganllawiau ar gael gan yr **ICO**.

Cyflwynodd **Deddf Data (Defnydd a Mynediad) 2025** rwymedigaethau newydd wrth brosesu data plant. Mae'n ofynnol i reolyddion ystyried bod plant yn llai tebygol o ddeall goblygiadau'r defnydd a wneir o'u data, yn llai ymwybodol o'u hawliau mewn perthynas â'u data, ac yn llai abl i arfer yr hawliau hynny. Dylai ysgolion ddilyn y canllawiau hyn er mwyn sicrhau eu bod yn bodloni'r rhwymedigaethau hynny.

Dylai ysgolion adolygu eu hysbysiadau preifatrwydd yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn parhau'n gywir ac yn cydymffurfio â'r gofynion perthnasol.

Argymhellir cynnal **Asesiadau Effaith Diogelu Data (DPIA)** yn arbennig pan fo data plant yn gysylltiedig, pan fo gwybodaeth yn cael ei rhannu'n systematig neu pan fo data'n cael eu trosglwyddo rhwng sefydliadau, gan fod risg bosibl i hawliau a rhyddid unigolion. Mae'r ICO yn annog sefydliadau i asesu risgiau cyn rhannu gwybodaeth bersonol plant.

Dylai'r DPIA ystyried:

- angenrheidrwydd a chymesuredd;
- risgiau o ran llywodraethiant gwybodaeth;

[7] https://cy.ico.org.uk/for-organisations/uk-gdpr-guidance-and-resources/childrens-information/children-and-the-uk-gdpr/

- trefniadau diogelwch;
- cyfnodau cadw;
- rheolaethau mynediad; a
- mesurau lliniaru.

**Cytundebau Rhannu Data**

Pan fo gwybodaeth yn cael ei rhannu'n rheolaidd, mae'r ICO yn argymell bod cytundebau rhannu data ffurfiol ar waith. Ceir safonau a thempledi cyffredin ar gyfer datblygu Protocolau Rhannu Gwybodaeth a Chytundebau Datgelu Data drwy **Gytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI)**. Cynlluniwyd WASPI fel adnodd i helpu sefydliadau i rannu gwybodaeth bersonol yn ddiogel, yn effeithiol ac yn gyfreithlon. Mae'r dull cyson a hyrwyddir gan WASPI, ynghyd â'r arferion da a rennir drwy'r wefan, yn helpu sefydliadau i gyflawni eu cyfrifoldebau o ran diogelu data.

Rydym yn annog pob ysgol i ymuno â'r Cytundeb a defnyddio'r templedi a'r canllawiau sydd ar gael i gefnogi trefniadau rhannu gwybodaeth wedi'u cynllunio ar gyfer darparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, megis gweinyddu a darparu rhaglenni brechu.

**Cymhwyso'r Fframwaith Cymhwysedd yn ôl diffiniad Gillick**

Pan gaiff brechiadau eu cynnig yn rheolaidd mewn ysgolion, mae cydsyniad yn amrywio yn dibynnu ar oedran a chymhwysedd y plentyn neu'r person ifanc unigol. Yn achos plant oedran ysgol uwchradd, dylai taflenni gwybodaeth fod ar gael ar gyfer y person ifanc ei hun a dylid eu rhannu â'r rhieni neu'r gofalwyr cyn y dyddiad a drefnwyd ar gyfer cynnal y sesiwn frechu. Pan fydd person ifanc 16 neu 17 oed yn cydsynio i gael ei frechu, ni all rhiant neu ofalwr wyrdroi'r cydsyniad hwnnw.

Gall pobl ifanc o dan 16 oed sydd â digon o aeddfedrwydd a deallusrwydd i ddeall yn llawn yr hyn sy'n gysylltiedig â'r driniaeth arfaethedig (a ddisgrifir fel rhai sy'n gymwys yn ôl Gillick) hefyd roi cydsyniad. Fodd bynnag, yn ddelfrydol dylai eu rhieni neu eu gofalwyr fod yn rhan o'r broses ac, os yw'r person ifanc yn cytuno, dylid rhoi gwybod i'r rhieni neu'r gofalwyr am unrhyw frechiad a roddir. Os yw plentyn sy'n gymwys yn ôl diffiniad Gillick yn cydsynio i driniaeth, ni all rhiant neu ofalwr wyrdroi'r cydsyniad hwnnw. Pan fo gweithiwr iechyd proffesiynol sy'n rhoi'r brechiad o'r farn nad yw'r plentyn yn gymwys yn ôl diffiniad Gillick, dylid ceisio cydsyniad rhywun â chyfrifoldeb rhiant. Pan fo person ifanc 16 neu 17 oed neu blentyn cymwys yn ôl diffiniad Gillick yn gwrthod triniaeth, dylid derbyn y gwrthodiad hwnnw. Wrth asesu a yw plentyn yn gymwys yn ôl Gillick, dylid ystyried a yw'r plentyn yn gallu:

• deall natur a diben y cais;

• deall y manteision, y risgiau a'r canlyniadau posibl;

• cofio a myfyrio ar yr wybodaeth a drafodwyd;

• pwyso a mesur gwahanol opsiynau a safbwyntiau; ac

• egluro ei farn a'i resymau'n glir.

Bydd timau Nyrsio mewn Ysgolion neu dimau brechu yn defnyddio eu crebwyll clinigol at ddibenion asesu cymhwysedd yn ôl diffiniad Gillick er mwyn caniatáu i blant sy'n gymwys gydsynio drostynt eu hunain.

Os yw rhiant neu ofalwr yn dymuno gwneud cwyn bod ei blentyn wedi'i frechu yn dilyn asesu ei gymhwysedd yn ôl diffiniad Gillick, dylai'r rhiant neu'r gofalwr gysylltu â'r bwrdd iechyd perthnasol i drafod ei bryderon.